

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Gofal Deintyddol Clifton,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r
Fro

Dyddiad yr arolygiad: 3 Gorffennaf 2023

Dyddiad cyhoeddi: 3 Hydref 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4.	Y camau nesaf	19
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	22
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	24

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Gofal Deintyddol Clifton, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 3 Chwefror 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 40 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Practis Gofal Deintyddol Clifton yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Gwelsom y staff yn trin cleifion mewn ffordd gwrtais, gyfeillgar a phroffesiynol wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Gwnaethom wahodd cleifion i gwblhau holiadur AGIC a chawsom 40 o ymatebion (ni atebodd yr ymatebwyr bob cwestiwn, gan olygu nad oedd 40 o ymatebion ar gyfer pob cwestiwn).

Ar y cyfan, roedd sylwadau'r ymatebwyr yn gadarnhaol iawn. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth naill ai'n 'dda iawn' neu'n 'dda'. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Cyfeillgar, effeithlon, mae profiad proffesiynol yma bob amser”

“Roedd holl staff y dderbynfa a'r staff deintyddol yn hyfryd, yn gyfeillgar ac yn wybodus”

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ceisio cymorth ynghylch rhoi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith
- Egluro'r gwasanaethau cyfieithu sydd ar gael.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mynediad da i'r adeilad ac addasiadau i'r rhai ag anawsterau symudedd
- Roedd trefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd cleifion, gan gynnwys manau i gleifion gael sgysiau preifat â'r staff
- Roedd y practis yn ymdrechu i drefnu apwyntiad i'r cleifion gael eu gweld yn ystod amser a oedd yn addas iddynt.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Practis Gofal Deintyddol Clifton yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu gwasanaethau a thriniaethau i gleifion.

Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben. Roedd y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd gan y practis ystafell benodol ar gyfer glanhau a diheintio (dihalogi) offer deintyddol.

Gwnaethom edrych ar sampl o 10 o gofnodion cleifion a gwelsom eu bod wedi'u cwblhau'n dda a bod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant mewn dadebru brys ac yn cael hyfforddiant bob blwyddyn
- Darparu arwyddion i ddangos lleoliad cyfarpar brys.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd safle ac ardaloedd clinigol y practis yn addas ac yn cael eu cynnal a chadw'n dda
- Roedd trefniadau da ar waith i atal a rheoli heintiau, gan gynnwys ystafell ddihalogi ddynodedig
- Roedd asesiadau a pholisïau risg priodol ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod gan Bractis Gofal Deintyddol Clifton arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir. Roedd Rheolwr Practis ar waith ac yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o safon uchel.

Roedd cyfleoedd hyfforddiant priodol ar gael i'r staff er mwyn iddynt gyflawni eu rhwymedigaethau proffesiynol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau y caiff arfarniadau staff eu cynnal bob blwyddyn
- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn deall ei rwymedigaethau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd
- Sefydlu ffordd o gofnodi bod y staff wedi darllen a deall y polisiau a'r gweithdrefnau
- Llunio rhestr wirio i sicrhau y caiff gwiriadau priodol eu cynnal wrth recriwtio staff, er mwyn sicrhau eu bod yn addas i weithio yn y gwasanaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar gael i'r staff i'w helpu i ymgymryd â'u rolau

- Roedd ymrwymiad i ddatblygu'r staff, gan gynnwys defnyddio cynllun 'Arferion Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain' a chynllun 'Buddsoddwyr mewn Pobl'.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r gofal deintyddol yn dda bob amser ac mae'r staff yn rhoi gwasanaeth da bob amser”

“Staff da iawn, sy'n gwrtais, yn gyfeillgar ac yn gymdeithasol bob amser, ac yn dangos lefelau uchel o broffesiynoldeb”

“Mae staff y dderbynfa yn llawen ac yn hyfryd i sgwrsio â nhw bob amser”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Gwelsom fod amrywiaeth dda o wybodaeth yn cael ei darparu i gleifion yn y practis ac ar ei wefan. Roedd posteri a thafleini'n cael eu harddangos a oedd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am y practis ac am iechyd y geg.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod y staff wedi esbonio gofal y geg wrthynt mewn ffordd roeddent yn ei deall.

Roedd arwyddion dim smygu i'w gweld yn glir, yn unol â deddfwriaeth gyfredol i helpu i atal clefydau a achosir gan fwg ail-law.

Gofal Urddasol a Pharchus

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod drysau'r deintyddfeydd y cael eu cau yn ystod triniaethau er mwyn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion. Gwelsom hefyd fod y ffenestri ar ochr flaen y practis naill ai wedi'u cuddio neu fod haen adlewyrchol wedi'i gosod arnynt at ddibenion preifatrwydd.

Roedd camerâu teledu cylch cyfyng yn ardal y dderbynfa a'r coridorau, ond nid yn yr ystafelloedd trin, er mwyn gwella diogelwch. Roedd arwyddion i'w gweld a oedd yn hysbysu'r staff, y cleifion a'r ymwelwyr fod y system teledu cylch cyfyng ar

waith. Roedd Polisi Teledu Cylch Cyfyng ac Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd ar gyfer Teledu Cylch cyfyng ar waith.

Dywedwyd wrthym y gellid defnyddio'r deintyddfeydd neu ystafell y staff pe bai cleifion yn dymuno cael sgwrs breifat â'r staff.

Gwelwyd bod egwyddorion moesegol craidd y practis, fel y'u nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn cael eu harddangos yn yr ardaloedd cyhoeddus.

Roedd y 40 o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd yr holl gleifion a ymatebodd i holiadur AGIC, eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth a oedd ar gael a'u bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall y risgiau a'r buddiannau a oedd yn gysylltiedig â'r opsiynau triniaeth hynny.

Amserol

Gofal Amserol

Dywedodd y staff wrthym fod apwyntiadau brys ar gael bob dydd a gwnaethom nodi bod oriau agor arferol y practis yn golygu bod apwyntiadau y tu allan i'r diwrnod gwaith o 9 tan 5 ar gael yn rheolaidd.

Gwelsom fod oriau agor y practis a rhif ffôn mewn argyfwng y tu allan i oriau gwaith i'w gweld yn glir y tu allan i'r adeilad.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn rhoi gwybod i gleifion am unrhyw oedi.

Roedd holiadur AGIC yn gofyn i gleifion pa mor hawdd oedd cael apwyntiad yn y practis pan oedd angen un arnynt. Atebodd pob ymatebydd ond un drwy ddweud ei bod hi'n 'hawdd iawn' (25/40) neu'n 'eithaf hawdd' (14/40) cael apwyntiad. Dywedodd un nad oedd yn hawdd iawn cael apwyntiad.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Nododd pump o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC mai Cymraeg oedd eu dewis iaith. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent wedi cael cynnig y cyfle i siarad Cymraeg drwy gydol eu taith fel claf, dywedodd dau ohonynt eu bod wedi cael cyfle i wneud hynny, dywedodd un ei fod wedi cael cyfle i wneud hynny weithiau, a dywedodd dau nad oeddent wedi cael cyfle i wneud hynny.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y practis yn cyflogi dau aelod o staff sy'n siarad Cymraeg (un deintydd ac un therapydd). Nid oedd tystiolaeth bod y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith yn unol â Safonau'r Gymraeg.

Rydym yn argymhell y dylai'r practis geisio cyngor a chymorth ar sut i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.

Roedd rhywfaint o wybodaeth am gleifion ar gael yn ddwyieithog, gan gynnwys taflen wybodaeth i gleifion y practis.

Gwelsom nad oedd y staff yn glir ynghylch yr opsiynau a oedd ar gael i ddelio â chleifion nad ydynt yn siarad Saesneg.

Rydym yn argymhell y dylai'r practis adolygu pa wasanaethau cyfieithu y gellir eu darparu a sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r rhain.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom fod gofal a thriniaeth ddeintyddol yn cael eu darparu yn y practis mewn modd a oedd yn cydnabod anghenion a hawliau cleifion.

Roedd polisi Urddas a Pharch Cleifion a Pholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar waith yn y practis.

Dywedwyd wrthym mai rheolwr y practis oedd y swyddog amrywiaeth dynodedig a'i fod wedi cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'r rôl.

Roedd ramp yn arwain at y practis, gan ei wneud yn hygyrch i gleifion. Dywedwyd wrthym fod cleifion â namau symudedd yn cael eu trin yn y deintyddfeydd ar y llawr gwaelod a bod trefniadau'n cael eu gwneud i sicrhau bod eu dewis deintydd yn defnyddio'r ddeintyddfa ar y llawr gwaelod fel y bo'n ofynnol. Gwelsom fod dolen sain ar gael i gleifion.

Dywedwyd wrthym y gofynnid i gleifion newydd, a hynny mewn lleoliad preifat, am eu rhagenwau a ffefrir, a bod hyn cael ei nodi yn eu cofnodion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Gwelsom fod yr adeilad yn lân, mewn cyflwr da ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg. Roedd y cyfleusterau clinigol a'r ardaloedd cyhoeddus yn addas ar gyfer nifer y cleifion a'r gwasanaethau a ddarperir. Roedd y toiledau yn ymddangos yn lân, gyda chyfleusterau golchi a sychu dwylo a biniau gwastraff mislif. Gwnaethom nodi bod cynhyrchion mislif am ddim ar gael i ddefnyddwyr.

Gwelsom dystiolaeth o drefniadau addas i leihau'r risg o dân, gan gynnwys asesiad risg, diffoddwyr a larymau tân a oedd yn cael eu harchwilio'n flynyddol, ac arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân. Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch tân a gwelsom dystiolaeth o hyn yn sampl y ffeiliau staff y gwnaethom edrych arnynt.

Roedd asesiadau risg priodol ar waith ac roedd gan y practis Bolisi Parhad Busnes a Strategaeth Adfer o Drychineb.

Roedd tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr a phoster lechyd a Diogelwch yn y Gwaith i'w gweld yn yr ardal i staff yn unig.

Roedd loceri storio ar gael i'r staff ac roedd sgrin gludadwy yn cael ei defnyddio yn ystafell y staff er mwyn darparu ardal newid.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Gwelsom fod gan y practis bolisiau a gweithdrefnau priodol ar gyfer rheoli heintiau, ynghyd ag arweinydd rheoli heintiau dynodedig. Roedd y deintyddfeydd yn lân ac wedi'u dodrefnu mewn ffordd a oedd yn golygu y gellid eu glanhau'n effeithiol.

Roedd trefniadau digonol ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff a thrin sylweddau sy'n destun rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd (COSHH). Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod bin gwastraff clinigol yng nghefn y safle heb ei gloi. Tynnwyd sylw'r staff at hyn a chafodd y mater ei ddatrys ar unwaith.

Roedd gan y practis ystafell ddihalogi ddynodedig, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol lechyd Cymru 01-05, a gweithdrefnau boddhaol ar gyfer glanhau a diheintio cyfarpar deintyddol.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau a gwelsom dystiolaeth o hyn yn sampl y ffeiliau staff y gwnaethom eu hadolygu.

Roedd bron pob un o'r rhai a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y lleoliad yn lân iawn (38/40) a bod y mesurau atal a rheoli heintiau yn amlwg (40/40).

Rheoli Meddyginiaethau

Nodwyd gennym fod polisiau a gweithdrefnau diogel ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Cawsom wybod y byddai digwyddiadau niweidiol mewn perthynas â meddyginiaethau yn cael eu cofnodi gan staff y practis gan ddefnyddio'r cynllun Cerdyn Melyn.

Er bod cyfarpar a meddyginiaethau i'w defnyddio mewn argyfwng ar gael yn hawdd yn y practis, nid oedd arwyddion clir o hyn yn y practis.

Argymhellwn y dylid darparu arwyddion ychwanegol i ddangos lleoliad y cyfarpar brys.

Dangosodd archwiliad o'r hyfforddiant dadebru blynyddol nad oedd y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ac y gallai hyn gynyddu'r risg i ddiogelwch cleifion. Gwnaethom gadarnhau bod hyfforddiant wedi'i drefnu yn ddiweddarach yn y flwyddyn a bod tri aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf.

Argymhellwn y dylid cymryd camau i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol, gan gynnwys hyfforddiant dadebru, yn flynyddol.

Diogelu Plant ac Oedolion

Gwelsom weithdrefnau ysgrifenedig mewn perthynas â diogelu ac roedd y rhain ar gael yn hawdd i bob aelod o'r staff. Roedd y gweithdrefnau'n darparu canllawiau clir a manylion cyswllt perthnasol ar gyfer cyrff allanol. Roedd copi o weithdrefnau Cymru gyfan (2008) yn cael ei gadw yn y practis a dywedwyd wrthym fod y gweithdrefnau hyn wedi cael eu disodli gan Weithdrefnau Diogelu Cymru (2019). Yn ystod yr arolygiad, gwnaeth rheolwr y practis lawrlwytho a gosod ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru a'i rannu â'r staff.

Rydym yn argymhell y dylai siart lif GIG Cymru ar ddiogelu fod ar gael i'r staff.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Gwelsom fod cyfarpar addas ar gael yn y deintyddfeydd i ddarparu gofal a thriniaeth ddeintyddol. Roedd y cyfarpar a welsom yn lân ac mewn cyflwr da yn ôl pob golwg.

Roedd pob aelod o'r staff a oedd yn gweithio yn y practis a oedd yn ymwneud â defnyddio'r cyfarpar pelydr-x wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol yn y maes hwn a gwelsom dystiolaeth o hyn mewn sampl o ffeiliau'r staff y gwnaethom edrych arnynt.

Gwelsom fod y ddogfennaeth ofynnol ar gael i ddangos bod trefniadau diogel ar waith ar gyfer defnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod y profion gofynnol wedi'u cynnal ar y cyfarpar.

Gwelwyd bod archwiliad critigol wedi'i gynnal ar rai o'r peiriannau pelydr-X, ond nid oedd adroddiadau na thystysgrifau ar gael ar adeg yr arolygiad.

Rhaid i'r unigolyn cofrestredig ddarparu copïau o dystysgrifau archwilio critigol ar gyfer y cyfarpar radiograffig i AGIC.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Gwelsom fod y staff yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y practis. Gwelsom hefyd fod y staff yn ceisio cyngor proffesiynol perthnasol lle bo angen.

Cofnodion y Cleifion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal deintyddol deg claf. Roedd system briodol ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y cofnodion yn cael eu rheoli a'u storio'n ddiogel. Dywedwyd wrthym fod y cofnodion yn destun isafswm o gyfnod cadw ac roedd hyn yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd pob un o'r cofnodion a welsom yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol, megis enw a dyddiad geni'r claf, ei hanes deintyddol a'i hanes meddygol. Yn ogystal, roedd y rheswm dros fynychu ac unrhyw symptomau wedi'u cofnodi. Gwelsom hefyd dystiolaeth o siartiau sylfaenol llawn, archwiliadau periodontol sylfaenol, archwiliadau meinweoedd meddal, archwiliadau ychwanegol ac archwiliadau yn y geg a phroffion sgrinio am ganser. Fodd bynnag, nid oedd cyfleuster i gofnodi dewis iaith cleifion, ond dywedwyd wrthym y gellid rhoi hyn ar waith.

Rydym yn argymhell y dylai dewis iaith cleifion gael ei chofnodi.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod y cyfleusterau ar y safle yn briodol ar gyfer y gwasanaethau deintyddol dan sylw a bod prosesau ar waith ar gyfer gweithredu'r practis yn effeithlon.

Roedd y practis yn cyflogi dau therapydd deintyddol, un hylenydd a deg nyrs ddeintyddol i weithio ochr yn ochr â'r chwe deintydd. Roedd hyn yn darparu cymysgedd da o sgiliau ac yn hyrwyddo symudiad effeithlon drwy lwybrau triniaeth.

Dywedwyd wrthym fod atgyfeiriadau at weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn cael eu cwblhau yn electronig, a oedd yn cynnig system effeithlon i sicrhau bod y wybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu.

Lle bo hynny'n bosibl, roedd cleifion yr oedd angen gofal a thriniaeth brys arnynt yn cael eu gweld yn y practis yn ystod ei oriau agor arferol er mwyn atal cleifion rhag defnyddio gwasanaethau y tu allan i oriau neu ofal brys.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Y prif ddeintydd a rheolwr y practis oedd yn berchen ar y practis ac yn ei weithredu. Disgrifiwyd llinellau adrodd clir.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod cofnodion yn cael eu cymryd a'u rhannu â phob aelod o'r staff.

Roedd amrywiaeth o bolisiau ysgrifenedig ar gael i'r staff i'w helpu yn eu rolau. Roedd y sampl o bolisiau a welsom yn dangos eu bod wedi cael eu hadolygu, ond nid oedd systemau ar waith i gofnodi bod y staff wedi'u darllen a'u deall.

Rydym yn argymhell y dylid defnyddio system gofnodi i gadarnhau bod y staff wedi darllen a deall polisiau a gweithdrefnau sy'n berthnasol i'w rôl.

Roedd gan y practis ddatganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion cyfredol, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd y rhain yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion am y gwasanaethau a gynigir yn y practis ac roedd y daflen wybodaeth i gleifion ar gael yn Gymraeg hefyd.

O dan y rheoliadau, mae'n ofynnol i'r practis roi gwybod i AGIC am newidiadau i'r daflen wybodaeth i gleifion, ond nid oedd wedi gwneud hyn.

Rhaid i'r unigolyn cofrestredig roi gwybod i AGIC am y daflen wybodaeth i gleifion ddiwygiedig.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Gwelsom fod enwau pob aelod o'r staff clinigol a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i'w gweld yn glir yn ardal y dderbynfa. Disgrifiwyd system addas ar gyfer cynnal gwiriadau parhaus o gofrestrriad pob aelod o'r staff clinigol sy'n gweithio yn y practis â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Dywedwyd wrthym fod y staff nyrsio deintyddol wedi cael hyfforddiant mewnol i sicrhau bod y sgiliau cywir ar waith ac nad oedd staff asiantaeth yn cael eu defnyddio.

Roedd proses sefydlu a chyfnod prawf yn cael eu defnyddio ar gyfer aelodau newydd o staff. Gwelsom dystiolaeth bod protocol a rhestr wirio wedi cael eu datblygu i sicrhau bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal wrth recriwtio staff newydd er mwyn sicrhau eu bod yn addas i weithio mewn practis deintyddol, ond nad oedd y rhain wedi cael eu rhoi ar waith eto.

Dylid rhoi'r protocol a'r rhestr wirio i sicrhau bod staff newydd yn addas i weithio ar waith.

Gwnaethom edrych ar gofnodion ar gyfer tri aelod o'r staff clinigol a gwelsom fod pob un ohonynt yn cynnwys tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, tystiolaeth o yswiriant indemniad (lle y bo'n ofynnol), tystiolaeth o gofrestrriad â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a thystiolaeth o imiwneiddiadau.

Dywedwyd wrthym nad oedd y staff yn cael arfarniadau blynyddol a bod eu perfformiad yn cael ei reoli ar sail ad-hoc.

Dylai'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad rheolaidd.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Roedd blwch awgrymiadau i gleifion ar gael yn ardal y dderbynfa. Dywedwyd wrthym fod arolygon cleifion yn cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn, gan ddefnyddio holiaduron papur a oedd yn cael eu dosbarthu i gleifion, a bod yr amseru'n amrywio er mwyn hyrwyddo ymateb cynrychioliadol.

Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw newidiadau sy'n deillio o adborth gan gleifion fel arfer yn cael eu rhannu â chleifion gan ddefnyddio'r hysbysfyrddau yn yr ardaloedd aros.

Roedd gan y practis weithdrefn gwyno glir a oedd ar gael yn hawdd i gleifion yn yr ardaloedd cyhoeddus, a hynny yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gwelsom hefyd fod proses 'Gweithio i Wella' y GIG yn cael ei harddangos. Roedd y weithdrefn gwyno yn nodi'n glir gyda phwy yn y practis y dylid cysylltu i fynegi pryder, ynghyd â manylion cyswllt cyrff allanol yn cynnwys AGIC.

Dywedwyd wrthym pe bai cwyn ysgrifenedig yn dod i law, y byddai rheolwr y practis yn cofnodi'r manylion ac yn cynnwys copi o'r weithdrefn gwyno wrth gydnabod ei fod wedi derbyn y gŵyn. Yn dilyn ymchwiliad, nod y practis oedd ymateb i gwynion ffurfiol o fewn pedair wythnos. Byddai cwynion anffurfiol neu ar

lafar yn cael eu cofnodi mewn llyfr. Dywedodd y staff wrthym fod cwynion yn cael eu hadolygu er mwyn nodi unrhyw themâu neu faterion rheolaidd.

Gwelsom fod polisi Dyletswydd Gonestrwydd ar waith a'i fod yn gysylltiedig â pholisi Digwyddiadau Niweidiol y practis. Mae'r polisi'n nodi rolau a chyfrifoldebau yn glir, ond dywedwyd wrthym nad oedd hyfforddiant ffurfiol wedi'i roi i'r staff.

Dylai'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r Ddyletswydd Gonestrwydd ac yn deall ei gyfrifoldebau oddi tani.

Gwybodaeth

Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol

Gwelsom fod y practis yn defnyddio systemau electronig i reoli cofnodion cleifion. Roedd y practis yn defnyddio system atgyfeirio ar-lein er mwyn atgyfeirio cleifion at gyrff eraill y GIG.

Dysgu, Gwella ac Ymchwil

Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Dywedwyd wrthym fod y tîm deintyddol yn cwblhau'r pecyn cymorth Hunanasesiad Sicrhau Ansawdd yn flynyddol. Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau clinigol yn cael eu cynnal mewn perthynas â phelydrau-X, cofnodion clinigol, offer miniog, diogelu data, rhoi'r gorau i smygu a gwrthfotigau. Gwelsom hefyd fod y practis yn gwneud newidiadau yn dilyn adolygiadau o wasanaethau a gwaith ymchwil.

Dywedodd y staff wrthym fod clinigwyr yn y practis yn cynnal adolygiadau cymheiriaid mewnol a bod cyngor proffesiynol yn cael ei geisio gan gyrff allanol fel y bo'n ofynnol.

Dull Systemau Cyfan

Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu

Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio systemau rheoli ansawdd allanol, gan gynnwys Compass y GIG, Hunanasesiad Sicrhau Ansawdd a chynllun arferion da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain.

Dywedodd y staff wrthym fod gan y practis drefniadau gyda phractis deintyddol arall i sicrhau parhad y gwasanaeth mewn argyfwng.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelwyd bod bin gwastraff clinigol yng nghefn y safle heb ei gloi.	Risg o amlygiad posibl i wastraff clinigol.	Codwyd hyn gyda'r prif ddeintydd yn ystod taith o amgylch y safle.	Aeth y prif ddeintydd i nôl yr allwedd ar unwaith er mwyn cloi'r bin gwastraff clinigol.
Gwnaethom edrych ar ddogfennau diogelu a gwelsom fod copi o weithdrefnau Cymru gyfan (2008) yn cael ei gadw. Roedd y gweithdrefnau hyn wedi cael eu disodli	Roedd risg y gallai mesurau diogelu a oedd wedi dyddio gael eu cymryd.	Trafodwyd hyn â rheolwr y practis, a dywedwyd wrthym fod ap ar gael i'w lawrlwytho i ddyfeisiau digidol.	Aeth rheolwr y practis ati ar unwaith i lawrlwytho'r ap a rhannu'r wybodaeth â'r staff yn electronig.

gan Weithdrefnau Diogelu Cymru (2019)			
---	--	--	--

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Gofal Deintyddol Clifton

Dyddiad yr arolygiad: 3 Gorffennaf 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Gofal Deintyddol Clifton

Dyddiad yr arolygiad: 3 Gorffennaf 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd tystiolaeth o ymwybyddiaeth o'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg na thystiolaeth ei fod ar waith i gleifion.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i geisio cyngor a chymorth ynghylch sut i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.	Safon: Teg	Ar ôl cyfeirio at becyn y 'Cynnig Rhagweithiol' gan Lywodraeth Cymru, rydym yn hapus bod ein holl ddeunydd darllen a gwybodaeth sy'n berthnasol i'r practis yn cael eu harddangos yn ddwyieithog. Er mai dim ond un aelod o'n tîm sy'n gallu siarad Cymraeg, nid oes yr un person erioed wedi gofyn am gael cyfathrebu yn Gymraeg drwy gydol fy nghyfnod o fod yn berchen ar y practis (18 mlynedd). Fodd bynnag,	Chris Pryde	Wedi'i gwblhau

			fel sy'n wir am yr holl ieithoedd gwahanol y mae ein cleifion yn eu siarad, byddwn bob amser yn ceisio darparu ar gyfer hyn (gweler isod) lle bo angen.		
Roedd diffyg eglurder ymhlith y staff ynghylch cael gafael ar wasanaethau cyfieithu a'u defnyddio.	Rhaid i'r unigolyn cofrestredig egluro i AGIC pa drefniadau sydd ar waith i ddarparu gwasanaeth cyfieithu lle bo angen, a bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r trefniadau hyn.	Safon: Teg	Mae gennym un o'r poblogaethau o gleifion mwyaf diwylliannol amrywiol yn ein Bwrdd lechyd Lleol. Pe na bai gennym ffordd o gyfathrebu â'r grŵp amrywiol hwn o bobl yn llwyddiannus, yna ni fyddem yn gallu gweithredu. Mae'r practis wedi gweithredu yn yr ardal hon ers 1952 ac mae gennym rwydwaith o'n cleifion ein hunain, teulu/ffrindiau cleifion a gwasanaethau cyfieithu dros y ffôn sy'n ein galluogi i drin y boblogaeth amrywiol hon a sicrhau y caiff y prosesau cydsynio llawn eu dilyn. Ni allai'r staff	Chris Pryde	Wedi'i gwblhau

			gredur bod y mater hwn wedi cael ei godi.		
Nid oedd dewis iaith cleifion yn cael ei chofnodi yn eu nodiadau meddygol.	Rhaid i'r unigolyn cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau gweithredu i gynnwys dewis iaith cleifion yn eu cofnodion.	Safon: Teg	Mae hyn wedi'i ddiweddarau	Chris Pryde	Wedi'i gwblhau
Nid oedd rhai o'r staff wedi cael hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.	Rhaid i'r unigolyn cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd.	Safon: Yn canolbwyntio ar yr unigolyn	Cafodd pob aelod o'r staff neges e-bost gennyf ar 22/3/2023 yn cynnwys dolen gan BILL Caerdydd a'r Fro i gwblhau'r hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd a gynigir gan Dysgu Digidol Cymru. Rydym wedi cadarnhau bod pawb wedi gwneud hyn.	Chris Pryde	Wedi'i gwblhau
Nid oedd system ar waith i gofnodi bod y staff wedi darllen a deall polisiau a gweithdrefnau.	Rhaid i'r unigolyn cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i gofnodi bod y staff wedi darllen a deall polisiau a	Safon: effeithiol	Yn ystod hyfforddiant sefydlu staff newydd, darllenir drwy rai polisiau a phrotocolau gyda'r aelod o staff dan sylw a bydd Rheolwr y Practis wedyn yn	Jane Pryde	Wedi'i gwblhau

	gweithdrefnau sy'n berthnasol i'w rolau a'u cyfrifoldebau.		llofnodi i ddangos bod yr hyfforddiant sefydlu wedi'i gwblhau. Ailedrychir ar bolisiau yn ystod cyfarfodydd y practis		
Nid oedd y practis wedi rhoi gwybod i AGIC fod ei ddatganiad o ddiben a'i daflen wybodaeth i gleifion wedi cael eu diweddarau.	Rhaid i'r unigolyn cofrestredig roi copïau diwygiedig o'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion i AGIC.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 7	Rwyf wedi lanlwytho'r rhain drwy Objective Connect i AGIC	Chris Pryde	Wedi'i gwblhau
Nid oedd y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant dadebru a chynnal bywyd sylfaenol diweddaraf, a gallai hyn gynyddu'r risg i ddiogelwch cleifion.	Rhaid i'r unigolyn cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod pob aelod o'r staff clinigol yn cwblhau hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol a dadebru priodol ac i sicrhau y caiff yr hyfforddiant hwn ei ail-ardystio bob 12 mis.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 8 (1) (q)31(3)(a)	Fel y trafodwyd ar y diwrnod, mae dogfen Quality of Standards: Primary Dental Care y Cyngor Dadebru (2020) 3 (3) yn nodi ' <i>Dental practitioners and other dental healthcare staff should update their knowledge and skills in resuscitation at least annually</i> '	Chris Pryde	Hyfforddiant wedi'i drefnu fel y nodwyd

			Gwnaethom gwblhau'r hyfforddiant ddiwethaf ar 4/5/2022 ac mae sesiwn ailhyfforddi eisoes wedi'i threfnu drwy AaGIC (31/5/23 drwy e-bost) ar 19/10/23		
Arwyddion annigonol i ddangos lleoliad meddyginiaeth a chyfarpar brys.	Rhaid i'r unigolyn cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddarparu arwyddion ychwanegol i ddangos lleoliad cyfarpar brys.	Safon: Effeithlon	Fel y trafodwyd yn ystod yr arolygiad, mae pob aelod o staff y practis yn gwybod yn union ble y caiff yr holl gyfarpar brys a chymorth cyntaf ei storio. Rydym yn teimlo'n gryf y gall gosod arwyddion sy'n dangos ble y caiff cyffuriau brys eu cadw i'r cyhoedd na fyddant byth yn gyfrifol am eu defnyddio, arwain at broblemau o ran diogelwch. Rydym wedi cael problemau lladrata yn y gorffennol ac mae gennym ddyletswydd i ystyried diogelwch pob aelod o'n staff.	Chris Pryde	Gweler y sylwadau

<p>Dylai'r staff allu cael gafael yn hawdd ar ganllawiau cyfredol ar ddiogelu a'r camau i'w cymryd.</p>	<p>Rhaid i'r unigolyn cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod siartiau llif ar ddiogelu (o ddogfennau PHW 03/TP01 a PHW03/TOP02 Iechyd Cyhoeddus Cymru) ar gael i'r staff.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 14(1)</p>	<p>Mae pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddiogelu ac wedi rhoi'r hyfforddiant hwn ar waith sawl gwaith yn ystod y flwyddyn ar gyfer sawl claf. Rydym wedi ychwanegu'r polisiau y cyfeiriwyd atynt at ein hysbysfwrdd yn ystafell y staff ac mae pob aelod o'r staff wedi llofnodi i ddangos ei fod wedi darllen y polisiau hyn a'u deall.</p>	<p>Chris Pryde</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Roedd protocol a rhestr wirio ar gyfer sicrhau bod gan staff newydd y ddogfennaeth briodol (fel geirdaon gan gyflogwyr a thystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) wedi'u drafftio ond nid oeddent wedi'u rhoi ar waith.</p>	<p>Rhaid i'r unigolyn cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal wrth recriwtio staff newydd, er mwyn sicrhau eu bod yn addas i weithio mewn practis deintyddol.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 18</p>	<p>Mae rhestr wirio ar gyfer aelodau newydd o staff wedi cael ei drafftio ac yn cael ei defnyddio ar gyfer pob cyflogai newydd. Roedd hon ar gael ar adeg yr arolygiad</p>	<p>Jane Pryde</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

<p>Nid yw'r staff yn cael arfarniadau blynyddol ffurfiol.</p>	<p>Rhaid i'r unigolyn cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad rheolaidd.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Regulation 17(4)</p>	<p>Arferid cynnal arfarniadau'n rheolaidd cyn pandemig COVID-19, ac ers hynny, mae materion staffio (y mae'r BILL yn gwbl ymwybodol ohonynt) wedi ein hatal rhag ailddechrau eu cynnal. Rydym yn llwyr fwriadu ailddechrau cynnal arfarniadau yn y dyfodol agos.</p>	<p>Jane Pryde</p>	<p>Gweler y sylwadau</p>
<p>Gwelwyd bod archwiliad critigol wedi'i gynnal ar rai o'r peiriannau pelydr-X, ond nid oedd adroddiadau na thystysgrifau ar gael.</p>	<p>Rhaid i'r unigolyn cofrestredig roi copïau o'r tystysgrifau archwilio critigol ar gyfer y cyfarpar radiograffig i AGIC pan fyddant ar gael.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 8 (1)(d)</p>	<p>Mae copïau wedi'u hanfon i AGIC drwy Objective Connect</p>	<p>Chris Pryde</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Chris Pryde

Teitl swydd: Perchennog y Practis

Dyddiad:

13/9/2023